| CYNLLUN GWERS | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwnc** | **Uned** | **Gwers** | **Cyfnod allweddol** |
| **Hanes** | **1** | **Pwy oedd y Gwrthwynebwyr Cydwybodol?** | **3** |

**Pwnc: Gwrthwynebwyr cydwybodol**

**Amcanion:**

- Dysgu pwy oedd y gwrthwynebwyr cydwybodol.
- Archwilio pam nad oedden nhw eisiau mynd i ryfel.

**Geiriau allweddol:**
Rhyfel Byd Cyntaf, gwrthwynebydd cydwybodol, gorfodaeth filwrol, gwasanaeth milwrol.

<table>
<tr><td>Cyflwyniad/Deunydd Ysgogi Cychwynnol:<br>Llun o recriwtio i’r fyddin – Dilynwch y PwerBwynt a thrafod dechrau’r Rhyfel Byd Cyntaf. Pan mae’r dynion hyn yn edrych yn hapus i fod yn ymuno ag ymdrech y rhyfel?</td><td>Amser<br>5 mun</td></tr>
<tr><td>'Dylai’r wladwriaeth fod â’r hawl i gymell yr unigolyn i ymladd dros ei wlad, a rhoi eu bywyd os oes angen, ar adeg o ryfel.’<br>Dylai’r disgyblion drafod mewn grwpiau p’un ai ydyn nhw’n cytuno â’r datganiad hwn.<br>Trafodwch y rhesymau o blaid ac yn erbyn y datganiad hwn.<br>Yn dilyn y PwerBwynt, trafodwch ddeddf gorfodaeth rhyfel 1916.<br>Cyflwyniad i’r gwrthwynebwyr cydwybodol yn dilyn y PwerBwynt.<br><u>Cwestiynau i’w hateb yn y llyfrau gwaith</u><br>1. Beth oedd gorfodaeth rhyfel a pham y cafodd ei chyflwyno?<br>2. Beth yw gwrthwynebydd cydwybodol?<br>3. Pa resymau ydych chi’n credu oedd gan rywun dros beidio â mynd i ymladd yn y rhyfel?<br>Trafodaeth ddosbarth ar y cwestiynau uchod, gall disgyblion ychwanegu at eu llyfrau gwaith yn ystod y drafodaeth.<br>4. Pa un ydych chi’n credu yw’r rheswm mwyaf dilys? Defnyddiwch resymau i gefnogi eich ateb<br>Dylai’r disgyblion wneud nodiadau am y gwahanol fathau o wrthwynebwyr cydwybodol yn eu llyfrau gwaith.<br><u>Gweithgaredd un.</u><br>Rhoddir poster i bob grŵp (gweler y pecyn adnoddau) a dylai’r disgyblion feddwl am beth mae’r neges ar y poster yn ei chyfleu. At bwy y mae wedi ei anelu? Sut dylai hyn wneud i’r darllenwr deimlo? Dylai’r disgyblion gyflwyno eu canfyddiadau i weddill y dosbarth.<br><br>Y bluen wen – Yn dilyn y PwerBwynt, trafodwch y pwysau oedd ar ddynion i ymuno ag ymdrech y rhyfel. Beth mae’r ffynhonnell yn ei ddweud wrthym? Ydy’r disgyblion yn credu bod hyn yn deg? Oedd y dyn yn llwfr? Ydy’r ffynhonnell hon yn unochrog?<br><u>Gweithgaredd dau</u></td><td>Amser<br><br>5 mun<br><br>5 mun<br><br>5-10 mun<br><br>5-10 mun<br><br>5 mun<br><br>5 mun<br><br>15-20</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Dylai’r disgyblion lenwi’r ffurflen deddfau gwasanaeth milwrol (1916). Dylai’r disgyblion ddychmygu eu bod bellach yn oedolyn sy’n gweithio. Dylen nhw lenwi’r ffurflen fel gwrthwynebydd cydwybodol. Dylai’r disgyblion ddewis math o wrthwynebydd cydwybodol allan o het (gweler y daflen math o wrthwynebwyr cydwybodol i’w thorri i fyny). Trafodwch y rhesymau dros gael eich esgusodi cyn i’r disgyblion lenwi’r ffurflen oherwydd gallai’r iaith fod yn rhy anodd i ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Dylen nhw wedyn gysylltu un o’r rhesymau â’r hyn y maent wedi ei dderbyn ar hap. Rhaid iddyn nhw egluro eu rhesymau yn fanwl ar yr ail daflen dros ddymuno cael eu hystyried ar gyfer eu hesgusodi rhag gorfodaeth filwrol. Gall y disgyblion barhau ar dudalen arall o bapur os oes angen. Caiff y ffurflenni hyn eu defnyddio yn y wers nesaf fel rhan o dribiwnlys dosbarth. | mun |
| **Sesiwn lawn:** I orffen y wers, gallai rhai disgyblion ddarllen eu rhesymau dros wrthwynebu gorfodaeth filwrol.<br>**Gwaith estynedig:**<br>Gallai disgyblion ddechrau cynllunio darn asesu ysgrifenedig dan y teitl ‘Diwrnod ym mywyd Gwthwynebydd Cydwybodol’ (Gweler y daflen waith) | |

**Gwahaniaethu:** Dylai disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol dderbyn cymorth yn ystod y wers hon er mwyn cyfrannu at y drafodaeth ddosbarth. Gall disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol lenwi’r ‘Ffurflen Gwasanaeth Milwrol 1916 Anghenion Dysgu Ychwanegol’ sy’n cynnwys rhai geiriau i ddechrau brawddegau.

**Asesu:** Ar ffurf cyflwyniadau a roddir gan grwpiau ac o ddadl ysgrifenedig a roddir ar y ffurflen deddfau gwasanaeth milwrol.

**Adnoddau:**

Cyflwyniad PwerBwynt

Pecyn Ffynhonnell – posteri.

Ffurflen deddfau gwasanaeth milwrol 1916

Ffurflen Deddfau gwasanaeth milwrol 1916 ADY

Taflen torri allan ar fathau o wrthwynebwyr cydwybodol

Taflen waith Diwrnod ym mywyd Gwrthwynebydd Cydwybodol (Tasg estynedig)

**Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd:**

**Llythrennedd** – Gall y wers hon gysylltu â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:

- *Gofynnir i ddisgyblion siarad yn glir gan ddefnyddio iaith briodol*
- *Cyfrannu at drafodaeth grŵp.*
- *Gwrando ar eraill ac ymateb iddyn nhw.*
- *Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.*
- *Dewis a threfnu syniadau a gwybodaeth er mwyn rhoi datganiad clir a llawn.*
- *Casglu a chrynhoi gwybodaeth berthnasol*
- *Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol.*

**Rhifedd** - Gall y wers hon gysylltu â rhifedd yn y ffordd ganlynol:

- *Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau.*